Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Disgrifiad Swydd: Cynorthwy-ydd Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Cyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Fferylliaeth |
| **Cyflog:** | Gradd 7: £34,610 i £38,784 y flwyddyn a buddion pensiwn Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) |
| **Oriau gwaith:** | 2 ddiwrnod yr wythnos (14 awr) |
| **Nifer y Swyddi:** | 1 (neu rhannu swydd yn bosib) |
| **Contract:** | Swydd barhaol/am gyfnod penodol o 6 mis yw hon |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton |

**Prif Ddyletswyddau**

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymchwilydd ôl-raddedig talentog weithio gyda thîm ymchwil amlddisgyblaethol ar draws Prifysgolion Abertawe a Metropolitan Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Phwyllgor Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan. Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar gydgynhyrchu adnoddau cyfathrebu darluniadol i wella ymgysylltiad y cyhoedd yng Nghymru â phedwar nod agenda '*Eich Meddyginiaethau: Eich Iechyd*', er mwyn cefnogi'r defnydd gorau posibl o feddyginiaethau.

Bydd y prif ddyletswyddau yn cynnwys:

1. Cynnull grŵp llywio'r prosiect i oruchwylio'r prosiect, cysylltu ag aelodau a threfnu cyfarfodydd rheolaidd, paratoi agendâu a chadw cofnodion.
2. Cysylltu â darlunwyr, aelodau'r cyhoedd, cleifion, gweithwyr proffesiynol fferylliaeth, gwyddonwyr ymddygiad a rhanddeiliaid perthnasol eraill i drefnu a chynllunio gweithdai cydgynhyrchu mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru.
3. Archebu lleoliadau a threfnu teithio (lle bo angen) ar gyfer unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithdai cydgynhyrchu.
4. Goruchwylio'r broses casglu data ar gyfer y prosiect a chyfrannu at ddadansoddi'r data lle bo'n briodol, gan weithio gyda Arweinydd y Prosiect (Yr Athro James).
5. Cyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil a chynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, meddwl am syniadau newydd a chyflwyno canfyddiadau.
6. Paratoi adroddiadau, llunio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi.
7. Dangos hunangymhelliant a defnyddio menter bersonol, gan geisio dod o hyd i ffyrdd addas o ymdrin â heriau a gofyn am arweiniad pan fo angen.
8. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran ac mewn mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt fel y bo'n briodol, megis ym myd diwydiant/masnach, mewn sefydliadau cyhoeddus, ysbytai ac yn y byd academaidd.
9. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.
10. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes o safbwynt technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiadau ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth.
11. Gweithredu fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau pan fo angen, gan achub ar y cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol.

| | |
|---|---|
| | 12. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun gan ddarparu tystiolaeth, nodi anghenion datblygu, gan gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran cyfnod prawf, Adolygiad Datblygiad Proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi.<br>13. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff cysylltiedig eraill.<br>14. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 15. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol<br>16. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd<br>17. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Manyleb Person** | Mae'r rôl ymchwil hon yn gofyn am fodloni'r meini prawf hanfodol, ac yn ddelfrydol rai o'r meini prawf dymunol a restrir isod.<br><br>**Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. Gradd mewn Fferylliaeth, Seicoleg, Gwyddorau Biofeddygol, Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd, neu radd mewn ddisgyblaethau perthnasol cyfwerth.<br>2. Tystiolaeth o'r gallu i ymgymryd â gwaith ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn arbennig ar gyfer cyfnodolion a adolygir a chyfrannu at y gwaith hwn.<br>3. Gallu amlwg i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect<br>4. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at brosiect ymchwil<br>5. Tystiolaeth o sgiliau cyfathrebu effeithiol a'r gallu i weithio'n gydweithredol fel rhan o dîm.<br>6. Tystiolaeth o brofiad o ddefnyddio methodoleg ymchwil ansoddol a chasglu data drwy gyfweliadau lled-strwythuredig ar-lein a/neu wyneb yn wyneb, neu drwy hwyluso grwpiau ffocws.<br>7. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>**Y Gymraeg:**<br>Lefel 1 – 'ychydig' (ni fydd angen i chi allu siarad Cymraeg i gyflwyno cais am y rôl hon)<br>*e.e. ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau. Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio/dysgu geiriau ac ymadroddion pob dydd sylfaenol iawn (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.*<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br>8. Cymwysterau gradd ymchwil ôl-raddedig – er enghraifft, PhD, MPhil, MRes neu gymhwyster cyfwerth.<br>9. Tystiolaeth o brofiad mewn rheoli prosiectau.<br>10. Profiad o gyflwyno ceisiadau moeseg ymchwil llwyddiannus i Bwyllgorau Moeseg Prifysgol. |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Yr Athro Delyth James, d.h.james@abertawe.ac.uk |